**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL**
**RHONDDA CYNON TAF**

**GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR**

**Mr. P. J. Lucas**
**Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**
**Y Pafiliynau**
**Parc Hen Lofa'r Cambrian,**
**Cwm Clydach, CF40 2XX**

**Ffôn: (01443) 424081 – Claire Hendy**

Caiff Cyfarfod y **Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu** ei gynnal yn **Swyddfeydd Cyngor y Fwrdeistref Sirol, y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach ddydd Iau, 1 Rhagfyr 2016** am **5.00 p.m.**

ER GWYBODAETH, AC FEL RHEOL GYFFREDINOL: OS BYDD AELOD O'R CYHOEDD YN DYMUNO SIARAD AR EITEM YN YR AGENDA YMA Y MAE GANDDO FUDDIANT YNDDI, RHAID IDDO GYFLWYNO CAIS FFURFIOL I UWCHADRAN MATERION RHEOLI DATBLYGU, TŶ SARDIS, PONTYPRIDD O LEIAF DAU DDIWRNOD GWAITH CYN DYDDIAD Y CYFARFOD.

ER SYLW'R RHEINI A FYDD YN Y CYFARFOD, NODER EI FOD YN BOSIBL Y CAIFF MATERION EU TRAFOD MEWN TREFN WAHANOL I'R UN YN YR AGENDA. CAIFF HYN EI WNEUD FEL BOD MODD I UNIGOLION SYDD AM GYFRANNU YN Y CYFARFOD WNEUD HYNNY. CAIFF TREFN YR AGENDA EI HADDASU ER MWYN HWYLUSO BUSNES Y PWYLLGOR CYMAINT Â PHOSIBL.

## A G E N D A

**1. DATGAN BUDDIANT** .

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau o'r Pwyllgor yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor.
**Noder:**

1. Gofynnir i aelodau nodi rhif a phwnc yr eitem y mae eu buddiant yn ymwneud â hwy ac i nodi natur y buddiant personol; ac

2. Os bydd Aelod yn gadael cyfarfod oherwydd ei fod wedi datgelu bod ganddo fuddiant niweidiol, **rhaid** iddo roi gwybod i'r Cadeirydd wrth adael.

**2.** **DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 PENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU**

Nodi y dylai aelodau o'r Pwyllgor roi ystyriaeth i'r Cynllun Datblygu a, cyn belled a'u bod yn berthnasol, i geisiadau ac i ystyriaethau eraill wrth benderfynu ar faterion rheoli datblygu. Wrth wneud penderfyniadau, rhaid i Aelodau sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn ffordd nad yw'n cydymffurfio â'r Confensiwn ar Hawliau Dynol a ymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**3.** **DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

Nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Nodi yn ogystal â hyn ei bod yn ei gwneud yn ofynnol iddyn nhw ymddwyn mewn ffordd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

**4.** **COFNODION**

| | **Rhif Tudalen** |
|---|---|
| Cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu ar 3 Tachwedd 2016 yn gywir. | **1 - 8** |

**5.** **ADRODDIADAU O GYNLLUNIO SECTOR CYHOEDDUS**

**CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU CYMERADWYO**

| | |
|---|---|
| 1. Cais Rhif 16/0736 – Cais amlinellol (pob mater wedi'i gadw'n ôl) am 15 o dai gan gynnwys ffordd atyn nhw (manylion wedi'u haddasu a chynlluniau dangosol wedi'u darparu), tir cyfagos â Pantygraigwen Road, Pontypridd. | **9 - 24** |

**CEISIADAU A OHIRIWYD**

| | | |
|---|---|---|
| **6.** | Cais Rhif 16/0839/10 – Dymchwel yr Adeiladau Ysgol presennol ac Adeiladu 98 o Breswylfeydd ynghyd â Gwaith Adeiladu Ffordd i Mewn, Saernïo a Thirlunio cysylltiedig (Gan Gynnwys Mynediad Addasedig i Ganolfan Chwaraeon ac Uned Cyfeirio Disgyblion) yn hen safle Ysgol Uwchradd Aberdâr, Ysgol Uwchradd Aberdâr, Cwmdâr, Aberdâr. | **25 - 40** |
| **7.** | Cais Rhif 16/0877/10 – Cynllun arfaethedig i newid y Defnydd o A1 i A3 'Siop Bwydydd Twym i Fynd' ac i osod Simnai Echdynnu a Gwyntyllu yn y cefn, Williams, 57 Tylacelyn Road, Pen-y-graig, Tonypandy. | **41 - 50** |
| **8.** | Cais Rhif 16/0603/10 – Ffatri Ynni NWY yw'r datblygiad arfaethedig, ac mae'n bosibl y bydd yn cynnwys Elfen o Storio Ynni. Mae wedi'i gynllunio i gael ei adeiladu ar dir o fewn Ystâd Ddiwydiannol Hirwaun (Derbyniwyd Manylion o Addasiadau 2/9/2016), Uned O, Tŷ Hirwaun Grŵp Walters, Ystâd | **51 - 66** |

Ddiwydiannol Hirwaun, Hirwaun, Aberdâr.

**9. ADRODDIAD ER GWYBODAETH**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Cynllunio mewn perthynas â Phenderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi, p'un a gymeradwywyd Ceisiadau i benderfynu ar ran y Pwyllgor a Cheisiadau a Wrthodwyd gyda Rhesymau ar gyfer cyfnod 07/11/2016 a 18/11/2016 **67 – 76**

**10. MATERION BRYS**

Ystyried unrhyw faterion a ddylai gael eu trafod yn y cyfarfod ar frys yn nhyb y Cadeirydd oherwydd amgylchiadau arbennig **77 - 105**

.

**Cylchrediad:**

**Aelodau o'r Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu:**

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu:
(Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol G.Stacey a M.Griffiths)

Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol L.M.Adams, J.Bonetto, (Mrs) L.De Vet, P.Jarman, (Mrs) S.J.Jones, R.Lewis, C.J.Middle, S.Powderhill, S.Rees, (Mrs) A.Roberts, G.Smith, G.Thomas, (Mrs) J.S.Ward, P.Wasley, M.J.Watts a E.Webster.

**24 Tachwedd 2016**